O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 1550 (Cy. 179)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Gwahanol Fannau rhwng Llanfair-ym-Muallt a'r Drenewydd, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *20 Mehefin 2011*

*Yn dod i rym* *1 Gorffennaf 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Gwahanol Fannau rhwng Llanfair-ym-Muallt a'r Drenewydd, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A483 rhwng Llanfair-ym-Muallt a'r Drenewydd yn Sir Powys, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd ar yr adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Mehefin 2011

***GARETH MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

<u>Cefn Bronllys, Llanddewi Ystradenni</u>

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 346 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd fynediad i Fron Efail i bwynt 228 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

<u>Melin Dyserth, ger Howey</u>

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 373 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1233 i bwynt 144 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

<u>Wye Cottage, Llanelwedd</u>

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 178 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd fynediad i Wye Cottage i bwynt 120 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Club Lane.

<u>Quarry Bends, Llanelwedd</u>

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 72 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r A481 i bwynt 622 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.